# Adroddiad Cwrs. Adnabod Gwlithod ym Mhrydain ac Iwerddon; 5ed Hydref 2014; Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis

Fe heriodd pymtheg o unigolion brwd am wlithod y ffyrdd gwlyb i ddod ar y Cwrs Adnabod Gwlithod a gynhaliwyd gennym yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis. Arweinydd y cwrs oedd Ben Rowson o'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, awdur canllaw i wlithod sydd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan yr FSC. Hwn oedd y tro cyntaf i Ben gynnal cwrs adnabod ar gyfer gwlithod yn unig, felly roeddem yn lwcus iawn o gael arweinydd mor wybodus.

Dechreuodd Ben drwy roi cyflwyniad llawn hiwmor i wlithod i ni, ar ffurf achos mewn llys. Cafwyd tystiolaeth nad yw pob gwlithen yn euog o fwyta planhigion ein gerddi ni – mae llawer ohonynt yn ffafrio planhigion marw, cen a phryfed genwair. Yn anochel, daeth y sesiwn yma i benllanw gyda dedfryd. Disgrifiodd Ben y dulliau gorau o reoli a lladd y rhywogaethau problemus i'r garddwr.

Wedyn buom yn edrych ar samplau byw yr unigolion ar y cwrs. Defnyddiwyd canllaw yr FSC a help Ben i'w hadnabod. Cyfnewidiwyd samplau a chafodd pawb gyfle i weld amrywiaeth da o rywogaethau, gan gynnwys y Wlithen Ysbryd gigysol, *Selenochlamys ysbryda*. Prynwyd copi o'r llyfr am wlithod gan lawer ar y diwrnod a manteisiwyd ar y cyfle i gael yr awdur i'w lofnodi.

Cawsom weld hefyd sut mae datgymalu sbesimenau o wlithod er mwyn gwahaniaethu rhwng rhai o'r rhywogaethau mwy anodd eu hadnabod. Dyma sgil y mae'n rhaid ei hymarfer yn gyson er mwyn ei pherffeithio!

Roedd y cwrs yn llwyddiant mawr ac mae wedi creu mwy o ddiddordeb mewn gwlithod ymhlith cofnodwyr Gogledd Cymru yn sicr. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at ragor o gofnodion o'r rhywogaethau yn y rhanbarth yma. Mae'n grŵp o infertebrata heb ddigon o gofnodion amdano.





